

# Sut i gael cymorth os oes ei angen arnoch

**Os ydych o oedran  
pensiynadwy, yn anabl neu â  
salwch cronig gallech fod yn  
gymwys i gael cymorth gan  
eich cwmni ynni.**

Mae'r daflen hon yn egluro pa  
help ymarferol sydd ar gael a sut y  
gallwch gael mynediad at gymorth  
ychwanegol.

## Pa help sydd ar gael i mi?

Os ydych o oedran pensynadwy, yn anabl neu â salwch cronig gallwch gofrestru ar y **Gofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth**.

Mae gan bob cyflenwr ynni ei gofrestr ei hun ac mae'n ofynnol iddo roi cymorth am ddim i bobl sy'n rhoi eu hunain, neu a gaiff eu cyfeirio, ar y gofrestr.

**Os byddwch yn cofrestru fel Cwsmer Gwasanaethau â Blaenoriaeth, mae'r gwasanaethau am ddim y gallech fod yn gymwys i'w cael yn cynnwys:**

- **Rhybudd ymlaen llaw** o doriadau cyflenwad wedi'u cynllunio - os ydych yn dibynnu'n feddygol ar eich cyflenwad gallwch drefnu bod y cwmni sy'n cynnal eich rhwydwaith lleol yn rhoi rhybudd ymlaen llaw i chi o doriadau i'r cyflenwad.
- **Gwybodaeth hygyrch** - gall eich cyflenwr roi gwybodaeth i chi am eich cyfrif a'ch bil mewn fformat hawdd ei ddarllen, er enghraifft print bras neu braille.
- **Cynllun diogelu cyfrinair** i sicrhau pobl bod galwyr, er enghraifft darllenwyr mesurydd, yn rhai dilys.



- **Cynllun enwebai biliau** - gallwch ofyn i'ch cyflenwr anfon eich biliau at unigolyn penodedig (e.e. aelod o'r teulu neu ofalwr).
- **Mesuryddion rhagdal** - os na allwch wneud taliadau i'ch mesurydd rhagdal oherwydd eiddilwch, gallwch ofyn i'ch cyflenwr ei symud i leoliad mwy hygyrch i chi am ddim.
- **Darlleniadau Mesurydd** - os na all unrhyw un yn eich tŷ ddarllen eich mesurydd, efallai y gall eich cyflenwr drefnu bod rhywun yn ei ddarllen bob chwarter.
- **Archwiliadau diogelwch teclynnau nwy blynyddol am ddim** i berchnogion tai.



# Sut alla i wneud yn siŵr fy mod ar y Gofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth?

Mae angen i chi ofyn am gael eich cynnwys ar Gofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth eich cyflenwr.

Gallwch chi, neu rywun sy'n gweithredu ar eich rhan, gysylltu â nhw:



**Dros y ffôn** – mae rhif ffôn eich cyflenwr ar eich bil.



**Drwy'r post** – gallwch ysgrifennu at eich cyflenwr ynni.



**Ar-lein/drwy e-bost** – drwy wefan eich cyflenwr.



## Asiantaethau cyngor

Mae gan gyflenwyr gysylltiadau ag amrywiaeth o sefydliadau lleol, gan gynnwys Cyngor ar Bopeth, Awdurdodau Lleol, Cymdeithasau Tai, elusennau ac asiantaethau cynghori ac yn aml gallant weithio gyda'r sefydliadau hyn i'ch helpu i ddatrys unrhyw anawsterau.





## Rhagor o wybodaeth

Ewch i wefan Ofgem: [www.ofgem.gov.uk/information-consumers/domestic-consumers/help-energy-bills](http://www.ofgem.gov.uk/information-consumers/domestic-consumers/help-energy-bills)

Os oes angen cyngor arnoch am eich biliau ynni, ewch i'ch canolfan Cyngor ar Bopeth leol neu [www.adviceguide.org.uk](http://www.adviceguide.org.uk)

Neu cysylltwch â gwasanaeth defnyddwyr Cyngor ar Bopeth ar **08454 04 05 05** (Cymraeg) neu **08454 04 05 06** (Saesneg).

Ar gyfer ffôn testun, deialwch **18001** ac yna rhif y llinell gymorth.